Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol David Hughes

Ffordd Pentraeth
Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol David Hughes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol David Hughes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Dwyieithog |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1132 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 925 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 156 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 11.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 22.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 54.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol David Hughes yn gymuned gynhwysol lle mae llawer o ddisgyblion yn cael profiad dysgu cefnogol ac ysgogol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch tuag at athrawon a chyfoedion, ac yn cymryd rhan yn weithgar mewn trafodaethau pâr neu mewn grŵp. Mae llawer o athrawon yn annog disgyblion i weithio'n bwrpasol ac yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol, gan sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n llawn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, nid yw'r gweithgareddau'n ddigon heriol, a gall gormod o arweiniad gan yr athro gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu'r addysg orau i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarn. Er bod yr uwch dîm arwain yn gefnogol o'i gilydd, nid yw rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm wedi'u dosrannu'n deg, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gweithio'n ddigon strategol. Mae systemau hunanwerthuso yn darparu mewnwelediad defnyddiol i gryfderau a meysydd i'w gwella, ond mae angen eu miniogi ymhellach i sicrhau bod pob maes sy'n gofyn am sylw yn cael ei dargedu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion, gyda thîm bugeiliol ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth unigol i'r rhai sydd ei hangen. Mae canolfannau cefnogi lles disgyblion yn cynnig amgylchedd diogel i ddisgyblion sy'n wynebu heriau, gan eu helpu i ailgysylltu â'u dysgu. Trwy weithio gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau allanol, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at gymorth arbenigol, pan fo angen.

Mae presenoldeb yn bryder, gyda chyfraddau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod systemau olrhain addas ar waith, mae angen dulliau mwy effeithiol i adnabod a mynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar bresenoldeb.

Mae barnau disgyblion yn dylanwadu'n gryf ar fywyd yr ysgol, gyda chyngor ysgol gweithgar sy'n cydweithio ag uwch arweinwyr i fynd i'r afael â materion megis bwlio. Mae system adrodd ddigidol wedi cynyddu hyder disgyblion i adrodd problemau, ac mae gwefan y cyngor ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a'r gymuned. Mae grwpiau thematig yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y grŵp UNICEF sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a'r grŵp Cymreictod sy'n dathlu diwylliant Cymru drwy weithgareddau yn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy'n rhoi cyfleoedd dysgu cyfoethog i ddisgyblion, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol a phartneriaethau â darparwyr addysg ôl-16. Mae rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn helpu disgyblion i ddatblygu gwytnwch ac

ymwybyddiaeth o faterion megis iechyd meddwl a straen. Mae holiaduron disgyblion a chyfraniadau rhieni yn dylanwadu ar ddatblygiad y cwricwlwm, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i'w hanghenion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Gwella'r addysgu trwy godi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu

A2. Gwella presenoldeb

A3. Addasu cyfrifoldebau'r  uwch dîm arwain fel bod pawb yn gweithio'n strategol

A4. Miniogi prosesau cynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r meysydd i'w gwella yn yr adroddiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â gwaith y cyngor ysgol a'i gwaith yn y gymuned leol, i'w rhannu ar wefan Estyn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

### Dysgu, addysgu ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gefnogol a chynhaliol â disgyblion Ysgol David Hughes. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau priodol o ran ymddygiad disgyblion. Maent yn rheoli eu dosbarthiadau yn gadarn ac wedi sefydlu arferion sy'n cefnogi disgyblion i setlo i weithio yn brydlon ac yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n gwrtais ac yn ymateb yn bositif i gyfarwyddiadau eu hathrawon. Maent yn cydweithio'n bwrpasol mewn pâr neu mewn grŵp bach, gan rannu syniadau'n barchus. Mewn ychydig o wersi, lle nad yw rheolaeth dosbarth yn effeithiol, mae lleiafrif y disgyblion yn siarad yn ormodol neu'n dangos diffyg parch at gyfoedion ac athrawon.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Mae llawer yn fodelau iaith effeithiol ac yn defnyddio terminoleg benodol yn bwrpasol. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi gyda dilyniant priodol ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu'n systematig ar waith blaenorol. Maent yn esbonio a rhoi cyfarwyddiadau clir i'r disgyblion ac yn defnyddio cwestiynau addas i wirio dealltwriaeth. Mae llawer o athrawon yn monitro ymglymiad disgyblion yn effeithiol trwy gylchu'r ystafell ddosbarth ac yn darparu adborth amserol sy'n helpu disgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mewn lleiafrif o achosion, lle nad yw'r addysgu'n gryf, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn y gwersi hyn, nid yw'r cynllunio na threfn y gwersi yn ffocysu digon ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r diffygion yn cynnwys:

- athrawon â disgwyliadau rhy isel o'r hyn mae disgyblion yn gallu ei gyflawni
- diffyg her mewn tasgau
- diwylliant o addysgu a dysgu hamddenol
- gormod o arweiniad gan yr athro sy'n cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i weithio'n annibynnol
- diffyg holi i brocio dealltwriaeth disgyblion

Yn yr ychydig wersi lle mae addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn ymrwymo'n frwdfrydig i'w gwaith ac yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn hyderus ac yn ei gymhwyso'n fedrus i gyd-destunau newydd. Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n cynnig lefel uchel o her ac sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddwfn. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio holi yn fedrus i herio disgyblion i feddwl yn annibynnol ac i drafod eu hatebion yn fanwl. Mewn ychydig o wersi,

mae athrawon yn cynllunio'n fedrus i ddarparu her briodol i ddisgyblion o wahanol alluoedd ac mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig priodol mewn llyfrau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae adborth yn effeithiol ac yn cynnig:

- cyfleoedd i ailddrafftio gwaith
- cyngor penodol ar sut i wella gwaith
- adborth trwy gyswllt fideo am welliannau penodol

Serch hyn, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn cyfeirio at welliannau penodol, neu nid yw'n amlwg sut  dylai disgyblion wella eu gwaith. Mae cywiro iaith disgyblion a disgwyliadau o ran ymateb disgyblion i adborth ar draws adrannau yn anghyson.

Mae bron bob disgybl yn y chweched dosbarth yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu ac yn dangos annibyniaeth wrth weithio. Maent yn ddisgyblion brwdfrydig ac aeddfed gydag agweddau cadarnhaol  at eu gwaith. Mae llawer yn gallu esbonio eu gwaith yn glir, gan wneud cysylltiadau â'u dysgu blaenorol.

### Darpariaeth a safonau disgyblion mewn llythrennedd

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion. Mae effaith gadarnhaol  gwaith 'Ein Llais Ni', sef strategaeth ysgol gyfan yn seiliedig ar raglen ranbarthol i godi hyder a chyfoethogi medrau llafaredd y disgyblion, wedi dechrau dwyn ffrwyth. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth, gan gynnig sylwadau adeiladol a defnyddio geirfa bynciol yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio terminoleg pwnc yn bwrpasol wrth ymateb i gwestiynau eu hathrawon, gydag ychydig o ddisgyblion yn darparu ymatebion llafar mwy cymhleth ac estynedig sy'n dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn naturiol, gan ddefnyddio acen naturiol. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhy barod i droi i Saesneg mewn trafodaethau pâr neu grŵp. Mae Saesneg yn britho ymatebion Cymraeg lleiafrif y disgyblion wrth ymateb ar lafar. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn mynnu cywirdeb iaith o ran termau pynciol yn ddigon cyson. Mae gan bron bob un disgybl sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, agwedd iach a phositif  at yr iaith ac maent yn datblygu eu hyfedredd yn yr iaith yn gadarn yn y gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn trafod blasau cwmni hufen iâ lleol yn fyrlymus yn eu gwersi.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant i staff ar strategaethau darllen cilyddol er mwyn arfogi'r disgyblion i wella eu dealltwriaeth o destunau newydd ac anghyfarwydd. Mae'r strategaethau hefyd wedi cael eu rhannu â'r ysgolion cynradd partner er mwyn ceisio sicrhau cysondeb. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau defnyddiol wrth leoli ffeithiau a chrynhoi tystiolaeth i ddod i gasgliadau synhwyrol. Maent

yn gallu rhagfynegi datblygiadau mewn testunau yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn rhagweld hanesion gwrachod Llanddona yn eu gwersi Cymraeg. Mae llawer yn gallu dadansoddi ffynonellau hanesyddol, er enghraifft wrth archwilio pwysigrwydd y Suffragettes yn ennill y bleidlais yn eu gwersi hanes. Mae disgyblion mwy abl yn llwyddo i ddod i gasgliadau deallus yn seiliedig ar ddarnau darllen, megis wrth ddadansoddi ymatebion Iddewon i argyfwng y Shoah mewn addysg grefyddol. Serch hyn, mae medrau darllen ychydig o ddisgyblion yn gyfyngedig, sy'n eu rhwystro rhag cael mynediad i destunau. Mae ganddynt eirfa gyfyngedig ac mae eu hatebion yn aml yn arwynebol pan maent yn dadansoddi testunau.

Wrth ysgrifennu, mae llawer yn llunio esboniadau ysgrifenedig byr gan ddefnyddio geirfa bynciol addas a phwrpasol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu am gysyniadau gwyddonol wrth ddisgrifio sut mae planhigyn yn ymateb i olau yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ac iaith addas mewn paragraffau strwythuredig oherwydd yr adeiladu gofalus a chynllunio pwrpasol sy'n arwain at dasgau. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o ffurfiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr i ddwyn perswâd ar bennaeth yr ysgol i gau'r ysgol ar ddiwrnod ffair Borth yn effeithiol yn eu gwersi Cymraeg neu ysgrifennu teithlyfr disgrifiadol a diddorol yn eu gwersi Saesneg. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n gywir, at ei gilydd, ond, yn y Gymraeg a Saesneg, mae lleiafrif yn gwneud gwallau sillafu a gramadegol cyson. Mae'r angen i wella cywirdeb ieithyddol disgyblion wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth gan yr ysgol ac mae staff wedi cytuno ar god marcio llythrennedd er mwyn mynd i'r afael â hyn. Serch hyn, mae defnydd ac effeithiolrwydd y cod hwn ymysg y staff yn anghyson.

### Darpariaeth a safonau disgyblion mewn rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif sylfaenol yn briodol. Maent yn defnyddio'r 4 rheol yn rhugl. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn cyfrifo egni potensial reid ffair. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif cryf. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau mesur priodol ac maent yn trawsnewid yn rhugl rhwng unedau metrig. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o siâp a mesur. Er enghraifft, maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o drigonometrig a theorem Pythagoras i gyfrifo hyd llinell, neu uchder triongl sydd heb ongl 90 gradd. Mae llawer o disgyblion yn defnyddio medrau trin data yn briodol. Maent yn llunio graffiau yn gywir, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dadansoddi graffiau. Er enghraifft, mewn gwersi daearyddiaeth, maent yn adnabod y cydberthynas rhwng datgoedwigo a phrisiau cig eidion.

Yn y gwersi mathemateg, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion iau gymhwyso eu medrau mewn cyd-destun ac i ddatrys problemau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol eraill yn ddigon strategol, ac mae'r cynlluniau hyn yn eu dyddiau cynnar.

Yn eu gwersi cyfrifiadureg a chyfrifiadura, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'u medrau wrth ddefnyddio iaith codio HTML i ddylunio gwefan ac yn defnyddio taenlenni i fewnbynnu ac i ddadansoddi data. Yn gyffredinol, tu allan i wersi digidol, dim ond ychydig o gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddefnyddio medrau sylfaenol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r cyfleoedd hyn yn ei ddyddiau cynnar.

Yn y gwersi addysg gorfforol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol buddiol. Maent yn datblygu technegau perthnasol mewn rygbi a 'pickleball' a chryfder a hyblygrwydd mewn sesiynau yoga. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn coginio pryd goujon cyw iâr mewn gwersi technoleg ac yn perfformio 'Y bwli' mewn gwersi drama.

### Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir er mwyn gwireddu Cwricwlwm i Gymru. Mae'n seiliedig ar annog balchder a dathlu Cymreictod, hunaniaeth a diwylliant Cymreig o fewn cyd-destun yr ardal leol a'r gymuned ym Môn. Mae'r cydweithio cryf rhwng adrannau i greu prosiectau pwrpasol yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddyfnhau eu profiadau dysgu, eu dealltwriaeth o'u cynefin a'u cysylltiadau â'r gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio â'i hysgolion cynradd partner ar brosiectau amrywiol. Er enghraifft, mae adran y dyniaethau wedi defnyddio barn disgyblion Blwyddyn 6 i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer pan fyddant ym Mlwyddyn 7, ac o ganlyniad, mae'r adran wedi cyflwyno uned o waith ar ffoaduriaid. Mae'r cynllunio o fewn y celfyddydau mynegiannol i ddathlu hunaniaeth wedi cyfrannu'n werthfawr at ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n bodloni anghenion ei disgyblion yn dda. Ceir darpariaeth gynhwysol ac ystod eang o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cynnwys gwallt a harddwch, bwyd a maeth, gofal plant a busnes. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o bartneriaeth chweched dosbarth yr ynys er mwyn ehangu'r cynnig o gyrsiau sydd ar gael.

Mae'r rhaglen ar gyfer iechyd a lles ym Mlwyddyn 7, 8 a 9 yn gynhwysfawr ac yn gryfder. Mae'r gwersi iechyd a lles, y sesiynau boreol 'Llun Lles' a gwasanaethau yn cefnogi a chyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Maent yn cynnwys themâu pwysig fel sut i fagu gwytnwch, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, straen ac addysg rhyw. Mae ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 drafod rhai materion pwysig ond nid oes trefniadau digon cyson iddynt. Mae'r ysgol yn gwrando ac yn ymateb i holiaduron disgyblion, barnau rhieni a'r gymuned leol i gynllunio cwricwlwm sy'n ymateb i brofiadau disgyblion. Mae gwaith y grwpiau llais y disgybl hefyd yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn cydweithio ag artist lleol ar hanes a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a chynrychiolaeth i ferched.

Ceir arlwy eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion a lles disgyblion. Mae amrywiaeth o glybiau gan gynnwys clwb Mandarin, ystod eang o glybiau addysg gorfforol, clwb celf, a chefnogaeth â medrau adolygu a gwaith cartref ar ôl ysgol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae disgyblion a staff yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol, sef i greu cymdeithas agored a chynhwysol sy'n parchu safbwyntiau, dyheadau a gobeithion pawb sy'n rhan o gymuned Ysgol David Hughes. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn annog disgyblion i feithrin gwerthoedd yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu a pharch  at oedolion a'u cymheiriaid. Maent yn groesawgar a chwrtais wrth gyfarch ymwelwyr ac yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol.

Mae'r tîm bugeiliol yn angerddol am eu gwaith i gefnogi pob disgybl i lwyddo ac yn gweithio'n bwrpasol i gyflawni hyn. Mae eu hadnabyddiaeth o anghenion disgyblion unigol yn gryfder ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau amrywiol i'w cefnogi, fel y 'Porth', 'C4', 'Y Gorad', 'Yr Harbwr' ac 'Yr Hafan'.

Mae uned fugeiliol, 'Y Porth', yn adnodd allweddol i nifer o ddisgyblion. Cynhelir ymyraethau penodol i ddisgyblion unigol fel y gallant reoleiddio eu hunain ac ailgydio yn eu dysgu. Mae staff yn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth, ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth amrywiol a buddiol ar eu cyfer. Mae cysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol yn galluogi staff i ddarparu cymorth wedi'i dargedu, sy'n helpu disgyblion i ffynnu. Gweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda'r awdurdod lleol drwy adnodd 'Yr Hafan' i gynnig cwricwlwm amgen i unrhyw ddisgyblion hŷn sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cadarn . Mae gan staff ddealltwriaeth glir o weithdrefnau amddiffyn plant a sut i gadw disgyblion yn ddiogel, ac mae gan yr ysgol brosesau diogelu addas.

Mae'r ysgol yn defnyddio data presenoldeb yn briodol i dracio absenoldebau er mwyn ymyrryd yn amserol. Mae grwpiau targed yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae penaethiaid blwyddyn a thiwtoriaid yn olrhain presenoldeb y grwpiau hyn yn gyson. Maent yn gweithio'n agos gyda'r swyddog lles ac asiantaethau amrywiol eraill i gefnogi dysgwyr sydd ag absenoldebau uchel. Serch hyn, nid yw'r trefniadau i werthuso ac adnabod y strategaethau sydd yn cael yr effaith fwyaf ar bresenoldeb yn ddigon miniog. Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol lawer mwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd yn sylweddol is na'r gyfradd mewn ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau

ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r gyfradd uchel o absenoldeb parhaus yn bryder.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion yn addas. Mae sesiynau ymyrraeth priodol ar gyfer unigolion yn eu cynorthwyo i ymarfer eu medrau darllen a rhif. Serch hyn, nid yw'r ymyraethau'n  cael eu monitro'n ddigon miniog er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigolion yn bwrpasol. Mae'r cynlluniau dysgu unigol yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr ar sut i gefnogi unigolion yn effeithiol. Er hyn, nid yw'r wybodaeth yn ddigon hylaw i athrawon ddefnyddio'r holl wybodaeth er mwyn adnabod sut gallant gefnogi'r disgyblion yn bwrpasol bob amser. Mae disgyblion sydd ag ADY yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ymarferol bywyd go iawn, er enghraifft wrth iddynt weithio yng ngardd yr ysgol, neu gael gwersi coginio ychwanegol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i fagu hyder ac yn ennyn brwdfrydedd yn eu profiadau dysgu.

Trefnir cyfleoedd a darpariaeth fuddiol a gofalus i gefnogi disgyblion i ystyried dewisiadau pynciau a gyrfa. Mae disgyblion yn cydweithio'n agos ag anogwyr dysgu er mwyn cynllunio eu dyfodol Mae hyn yn cefnogi'u dysgu a'u lles. Rhoddir cefnogaeth bwrpasol i helpu disgyblion i symud i'r camau nesaf yn eu llwybrau dysgu.

Mae strwythur clir o weithgareddau cyson i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o waith yr ysgol, er enghraifft wrth wneud penodiadau, wrth hunanwerthuso ac wrth ddiweddaru polisïau. Mae'r cyngor ysgol a'r pump grŵp disgyblion yn effeithiol wrth ysgogi newidiadau cadarnhaol, er enghraifft trwy eu hymgyrch gwrth–fwlio bresennol i greu ffurflen ddigidol i ddisgyblion gofnodi bwlio'n gyfrinachol drwy wefan y cyngor ysgol ac ap cyfathrebu'r ysgol. Mae gwefan newydd y cyngor ysgol yn adnodd defnyddiol i hyrwyddo eu gwaith yn ehangach gyda dysgwyr a rieni.

Mae'r grŵp UNICEF yn angerddol dros hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb o fewn yr ysgol, fel y gwelir yn eu gwaith ar wrth-hiliaeth. Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned leol, mae'r grŵp Cymreictod yn cynnal gweithgareddau gyda busnesau lleol, er enghraifft addurno ffenest siop a chystadleuaeth pobi.

Mae adrannau hefyd yn hyrwyddo barnau disgyblion ac yn ymateb i'w sylwadau yn effeithiol wrth addasu dulliau dysgu ac addysgu. Er enghraifft mae'r adran astudiaethau crefyddol wedi newid eu dulliau o wirio dealltwriaeth i ddefnyddio byrddau gwyn bach yn sgil adborth gan y disgyblion. Ceir cyfleoedd priodol hefyd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft wrth i ddisgyblion y chweched gefnogi disgyblion iau â'u medrau rhifedd yn y sesiynau ymyrraeth. Mae hyn yn meithrin perthynas dda rhwng disgyblion hŷn ac iau yr ysgol.

## Arwain a gwella

Mae penodi pennaeth newydd ym Medi 2024 wedi pennu pennod newydd yn nhaith wella'r ysgol. Mae'r pennaeth yn arweinydd brwdfrydig, doeth ac mae ganddi ymwybyddiaeth ardderchog o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae ganddi weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar sicrhau bod pob disgybl yn cael yr addysg a'r cyfleoedd gorau posibl. Yn ogystal, mae lles staff a disgyblion yn flaenoriaethau pwysig iddi. Mewn cyfnod byr fel pennaeth, mae wedi ennyn parch y staff, disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol ac maent yn ymddiried ynddi i arwain Ysgol David Hughes.

Ceir ymdeimlad cryf o berthyn ymysg cymuned Ysgol David Hughes. Mae llawer o'r staff a disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau eu hamser yno. Mae pwyllgor lles staff gweithgar yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod materion sy'n codi ac arfarnu effaith trefniadau dydd i ddydd ar les staff.

Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir. Fodd bynnag, nid oes dosraniad teg o gyfrifoldebau strategol ar draws holl aelodau'r uwch dîm arwain. Mae trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod aelodau'r uwch dîm yn cyfarfod ag arweinwyr cwricwlwm a bugeiliol yn rheolaidd i drafod agweddau o'u gwaith. Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r her maent yn eu cael gan aelodau cyswllt yr uwch dîm. Fodd bynnag, mae ychydig o anghysondeb o ran lefel yr her a gynigir i arweinwyr canol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Ceir strwythur priodol o is-bwyllgorau er mwyn cefnogi gwaith y corff llawn. Er bod ganddynt drosolwg priodol o'r mwyafrif o agweddau o waith yr ysgol, nid ydynt yn llwyr ymwybodol o'u rôl i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei monitro'n ofalus gan yr uwch swyddog gweinyddol, y pennaeth a'r is-bwyllgor cyllid.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gynlluniau priodol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Ceir cynnydd da o ran ymateb i rai agweddau, er enghraifft Cwricwlwm i Gymru a llythrennedd. Yn ddiweddar, cyflwynwyd strategaeth er mwyn cefnogi disgyblion bregus, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn ar bresenoldeb a deilliannau.

Mae calendr clir o weithgareddau ar gyfer arweinwyr i werthuso gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol er mwyn casglu tystiolaeth trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith a chyrchu barn disgyblion a staff. Er mwyn cyfoethogi a dilysu eu gwaith, maent hefyd yn cydweithio'n fuddiol â chynghrair ysgolion uwchradd Môn. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad a data mewnol yn briodol i gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Er hyn, mae tueddiad gan arweinwyr i fod yn or-ddibynnol ar ddata i arfarnu dysgu ac nid ydynt yn cyfuno data â

chanfyddiadau manwl o dystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da. Yn sgil y gwaith gwerthuso, mae arweinwyr yn darparu adolygiadau amrywiol ar wahanol agweddau o waith yr ysgol, megis ymglymiad disgyblion, safonau llefaredd a sicrhau her i bob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r trosolygon hyn bob amser yn ddigon miniog er mwyn adnabod yn union yr agweddau mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt. Gwna hyn hi'n anodd iddynt fonitro'n llawn effaith eu gwaith ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu anghenion yr ysgol a'r gymuned leol, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithredoedd bob amser yn ddigon cynhwysfawr i alluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar agweddau penodol y mae angen eu gwella.

Ers mis Medi, mae'r ysgol wedi ailgyflwyno cymunedau dysgu proffesiynol. Mae llawer o staff wedi ymateb yn frwdfrydig i'r cyfle i ymchwilio a chydweithio ag eraill er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cefnogi staff unigol gydag amryw brofiadau i ddatblygu'n broffesiynol, er enghraifft cyfleoedd i ddatblygu fel arholwyr allanol a chyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill. Er bod staff yn canmol yr arlwy sydd ar gael iddynt, nid oes cyswllt digon cryf rhwng y rhaglen datblygiad proffesiynol a'r meysydd penodol mae angen eu gwella o ran dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn bartner arweiniol mewn partneriaeth addysg gychwynnol athrawon lleol. Mae'r ysgol wedi elwa o'r cyfle i gydweithio ag ysgolion eraill ac mae'r mentoriaid adrannol yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'n broffesiynol a mentora hyfforddeion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2025